

## Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc

**Cyfarfod:** Y Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc

**Dyddiad:** 11 Rhagfyr 2018

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 5, Tŷ Hywel, y Cynulliad Cenedlaethol

Yn bresennol:

Cadeirydd: Dr Dai Lloyd AC (Plaid Cymru)

Siaradwyr:

Ross Whitehead, Prif Gomisiynydd Cynorthwyol Gwasanaethau Ambiwllans, Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys

Shane Mills, Cyfarwyddwr Ansawdd a Phrofiad y Claf, yr Uned Gomisiynu Gydwethredol Genedlaethol

Yn bresennol:

Dr Jill Newman - Cyfarwyddwr Perfformiad, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Wendy Hooson - Uwch Swyddog Cynllunio, Betsi Cadwaladr

Dr Fiona Jenkins - Cadeirydd Grŵp Cyflawni Strôc Cenedlaethol, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau ac Iechyd

Mike Jenkins - Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru

David Fitzpatrick - goroeswr strôc

Nick Cann - goroeswr strôc, enillydd Gwobr Bywyd ar ôl Strôc, llysgennad/codwr arian/aelod o bwyllgor y Gymdeithas Strôc

Alexander Smith - Cymrawd Ôl-raddedig, Prifysgol Caerdydd/y Gymdeithas Strôc

Helen Hak – Adran Therapydd Galwedigaethol ar gyfer Ymarfer Niwrolegol, Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan

Dr Sue Thomas – Coleg Nyrsio Brenhinol

Dr Brendan Lloyd - Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Meddygol a Chlinigol, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwllans Cymru

Nesta Lloyd-Jones - Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus, Cydffederasiwn Cymru

Stephen Davies - Cydlynnydd y Grŵp Gweithredu Strôc

Stephen Ray - Rheolwr Partneriaeth Gofal Iechyd Cenedlaethol, Bayer Public Limited Company

Niki Turner - Rheolwr Rhaglen Uned Strôc Hyperaciwt, Ysbyty Llandochau

Irina Erchova, Cydymaith Ymchwil, Prifysgol Caerdydd, goroeswr strôc

Jason Killens - Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru

Stephen Davies, Cydlynnydd Grwpiau Gweithredu Cyflyrau Strôc a Niwro

Mike Jenkins - Arweinydd Clinigol Rhanbarthol, Parafeddyg Ymgynghorol, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwllans Cymru

Marie Evans – Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf, Cynllunio a Pherfformiad

Carol Bott - Cyfarwyddwr Cymru, y Gymdeithas Strôc

Katie Chappelle - Pennaeth Dylanwadu a Chyfathrebu, y Gymdeithas Strôc

Llinos Wyn Parry - Pennaeth Cymorth Strôc (canolbarth a gogledd Cymru), y Gymdeithas Strôc

Matt O'Grady – y Gymdeithas Strôc, Swyddog Gwybodaeth Polisi ac Ymgynghoedd, Cymru

Jillian Haynes – y Gymdeithas Strôc, Cynorthwydd Personol i Gyfarwyddwr Cymru, Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc

Ymddiheuriadau:

Llyr Huws Gruffydd AC

Kirsty Williams AC Brycheiniog a Maesyfed:

Sue Beckman - Cyfarwyddwr Uned Gyflawni GIG (wedi ymddeol)

Dr Anne Freeman OBE - Ymgynghorydd Anrhydeddus BILIAB, Cyn-arweinydd Clinigol ar gyfer Strôc, Cymru

Nicola Davis-Job - Coleg Nyrsio Brenhinol

Philippa Ford MBE - Rheolwr Materion Cyhoeddus a Pholisi, Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi

Dr Jill Newman - Cyfarwyddwr Perfformiad, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Ross Evans - y Gymdeithas Strôc, Pennaeth Cymorth Strôc

Caroline Walters - Swyddog Polisi, Coleg Brenhinol y Therapïddion Lleferydd ac Iaith

Dr Phil Jones - Arweinydd Clinigol ar gyfer Strôc yng Nghymru

Sheila Tagholm – Aelod o Bwyllgor Cynghori Cymru (y Gymdeithas Strôc), gofalwr

Rachel Jenkins - Pfizer

Elin Edwards - Materion Allanol, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall

Peter Carr - Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd BILIAB

Carmel Donovan, Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol Integredig (Pen-y-bont ar Ogwr), Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Emma Henwood - Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru

---

1. Croeso, ymddiheuriadau a chyflwyniadau:

Croesawodd Dr Lloyd AC y rhai a oedd yn bresennol a chyflwynodd Carol Bott, cyfarwyddwr Cymru y Gymdeithas Strôc, a Katie Chappelle, pennaeth dylanwadu a chyfathrebu y Gymdeithas Strôc. Roedd ymddiheuriadau fel y'u rhestrir uchod.

2. Cymeradwyo Cofnodion blaenorol a'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau gweithredu

Cymeradwywyd y Cofnodion fel adlewyrchiad cywir o gynnwys y cyfarfod. Awgrymodd Mr David Fitzpatrick y dylid osgoi acronymau.

Dywedodd Matt O'Grady fod y llythyrau fel y'u disgrifiwyd wedi'u hanfon at Addysg a Gwella Iechyd Cymru a byrddau iechyd lleol ond ni chafwyd unrhyw ymatebion hyd yn hyn.

3. Cyflwyniad: Canfyddiadau'r Rhaglen Garlam Annibynnol ar gyfer Adolygiad Ambr

Dywedodd Shane Mills fod yr adolygiad ambr yn adolygiad annibynnol. Dadansoddwyd dau fater: 1) a oes problem? 2) a yw oedi yn achosi problemau? Roedd yr adolygiad wedi cymryd chwe mis i'w gwblhau ac mae'n cynnwys cyfweiliadau â staff y ganolfan reolaeth ac arolwg o'r cyhoedd. Adolygwyd y model ymateb clinigol ochr yn ochr â modelau'r Alban a Lloegr. Ymddengys y caiff model Cymru ei arwain yn fwy gan dargedau, ac mae wedi'i gynllunio i ymateb i achub bywydau. Cytunodd y cyhoedd nad yr ymateb brys cyflymaf sydd bob amser fwyaf priodol. Dywedodd Mr Mills fod cynnydd o 11 y cant mewn galwadau brys yn gyffredinol, am amryw o resymau, a bu cynnydd o 8 y cant mewn galwadau ambr. Sefydlwyd desg glinigol i ateb cwestiynau clinigol, cyfleuster sydd wedi'i gefnogi'n dda gan y cyhoedd ac sy'n cael ei

ystyried yn wasanaeth effeithiol. Cytunwyd yn gyffredinol ar gydlynu oriau agor e.e. unedau anafiadau, fel yr arfer gorau yng Nghymru, gan fod gwasanaethau'n amrywio'n sylweddol yn ôl yr ardal. Ystyriwyd bod mesurau ansawdd gwasanaeth yn hanfodol wrth adolygu llwybr y claf a hefyd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â chlinigwyr eraill. Cytunodd y cyhoedd fod trafodaethau nad oeddent yn arwain at alwad brys am ambiwlans yn dderbyniol.

Roedd sicrhau bod digon o staff rheng flaen yn ystod salwch ac ati yn hanfodol wrth gynnal gwasanaeth cyson ac mae amseroedd aros ambiwlans y tu allan i ysbytai yn fater i'w ystyried o ddifri. Gwelir llawer o gleifion o fewn 20-30 munud, ond mae achosion lle mae pobl yn aros am 50-60 munud, felly mae gwaith i'w wneud yn y maes hwn er mwyn darganfod beth sy'n achosi hyn. Dylid cynnal gwiriadau i sicrhau na fydd amseroedd aros annerbyniol yn digwydd, ac na fydd y goroeswr strôc yn dioddef unrhyw niwed y gellir ei osgoi.

Beth yw diffiniad 'niwed'? Dywedodd Mr Mills na fyddai pawb sy'n gorfod aros yn cael profiad negyddol neu'n dioddef niwed. Nid yw profiad gwael yr un peth â niwed. Mae gan y rhai sy'n ateb galwadau swydd anodd, llawn straen ac nid ydynt yn cael eu talu'n dda. Dangosodd ymatebion clinigol i'r adolygiad fod ambiwlansys yn rhoi sylw i'r rhai mwyaf anghenus yn gyntaf, fel blaenoriaeth, ac fel y bo'n briodol.

#### Trafodaethau:

Eglurwyd y gallai'r cynnydd mewn galwadau am ambiwlansys gan y cyhoedd gynnwys galwadau am ambiwlansys sydd eisoes ar y ffordd.

Dywedodd Ross Whitehead fod pobl weithiau'n galw am gyngor er mwyn cael arweiniad drwy'r system.

Dywedodd Dr Fiona Jenkins, pan oedd y cyfarfodydd Grŵp Cyflenwi Strôc cenedlaethol yn weithredol, gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r gwasanaeth ambiwlans i fod yn bresennol, ac roeddent wedi egluro pam y cafodd strôc ei ddsbarthu fel ambr, ac nid yn goch. Mae ambr yn gategori mawr iawn. Roedd tystiolaeth y gellid gwneud rhaniad effeithiol o fewn y categori ambr, gyda'r achosion llai difrifol yn cael eu harwain yn glinigol.

Eglurodd Mr Whitehead fod dau brif ddsbarthiad, h.y. Ambr 1 (difrifol iawn, ymateb cyflymach) ac Ambr 2 (y tu allan i thrombolysis). Gellid gwahaniaethu ymhellach, ond yr adnoddau sydd ar gael yw'r elfen bwysicaf.

Awgrymodd Dr Jill Newman y dylid adolygu 'profiad y daith o'r dechrau i'r diwedd' yn gyffredinol. Roedd cyfyngiadau'r systemau presennol wedi golygu bod y gogledd yn cael trafferth o dan y drefn bresennol, ac felly gofynnwyd i'r byrddau iechyd sut y dylid symud y gwaith hwn yn ei flaen.

Awgrymodd Dr Brendan Lloyd y dylid deall bod yr ymateb coch, gyda tharged wyth munud, yn arwain at ymatebion lluosog. Byddai'r parafeddyg unigol sy'n mynychu bygythiad ar unwaith i fywyd yn anfon neges i ganolfan reoli'r gwasanaeth ambiwlans i sicrhau bod cymorth wrth gefn gan ambiwlans ar gael cyn gynted ag y bo modd. Nododd yr adolygiad o wasanaethau ambiwlans gan yr Athro Keith Willett ymddygiadau anghyffredin mewn targedau amser a oedd yn cyflwyno lefel arall o risg. Efallai y bydd ymatebion ambr yn dod yn ymateb coch yn nes ymlaen. Edrychodd yr astudiaeth o'r dechrau i'r diwedd ar ganlyniadau gweithredol cleifion. Dywedodd yr Archwiliad Strôc Cenedlaethol y dylem edrych ar y rhain i benderfynu lle y gellid gwella'r ymatebion.

**Commented [WR(CyC)AC1]:** Original says '50-60 hours' which I assume should be '50-60 minutes'. If it should be hours, then it's '50-60 awr'

Awgrymodd Ross Whitehead y dylid nodi methodoleg i edrych ar ddemograffeg ac ati, er mwyn pennu sut y gallai cymorth fod yn effeithiol. Efallai y bydd angen atebion technegol. Roedd gwahanol grwpiau yn dadansoddi'r gwasanaeth i benderfynu ar yr elfennau/mesurau allweddol sy'n dwyn y gwasanaeth ambiwlans i gyfrif.

Gofynnodd Dr Sue Thomas am eglurhad ynghylch cwmpas ac arbenigedd y gwasanaeth ambiwlans ac a oedd modd cychwyn ar driniaeth strôc yn gynnar fel rhan o'r gwasanaeth hwnnw. Atebodd Dr Brendan Lloyd fod mesuriadau gofal yn cael eu dangos trwy arwyddion clinigol, e.e. siwgr yn y gwaed / cyfradd anadlu / curiad y galon ac ati. Prif nod y gwasanaeth yw cludo'r claf i'r uned strôc, gan fod mynediad at y therapi cywir yn hanfodol.

Holodd Dr Sue Thomas ymhellach a oedd unrhyw astudiaethau wedi cael eu cynnal wrth ddod â'r ystod lawn o wasanaethau diagnostig a thriniaeth at y claf. Tynnodd y drafodaeth sylw at y ffaith bod angen sgan cyn unrhyw driniaeth, oherwydd er enghraifft, efallai na fydd thrombolysis yn briodol.

Nododd Katie Chappelle mai nod y Gymdeithas Strôc yw gweithio gyda'r gwasanaeth ambiwlans er mwyn gosod targedau priodol fel bod y gwasanaeth yn cyd-fynd â gwasanaethau yn y DU.

Awgrymodd Shane Mills y gall targedau ddwyn y ffocws oddi ar y driniaeth sydd ei angen; y cwestiwn allweddol yw, beth sy'n bwysig a sut ydym ni'n ei fesur?

Awgrymodd Katie Chappelle fod angen addysgu'r cyhoedd hefyd i ddeall y system; dylai Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwllans Cymru ystyried gweithio gydag lechyd y Cyhoedd Cymru ar ymgyrch ymwybyddiaeth.

Dyweddodd Matt O'Grady fod yr holl ystadegau perthnasol ar gael i'w gweld ar [www.statscymru.llyw.cymru](http://www.statscymru.llyw.cymru).

Nododd Dr Fiona Jenkins fod cynrychiolydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwllans Cymru yn aelod o'r Grŵp Gweithredu Strôc. Mae'r Grŵp Strôc Cenedlaethol yn croesawu'r statws Coch/Ambr/Gwyrdd yn fawr iawn ac mae'n fodlon â'r categorïau.

Dyweddodd Dr Brendan Lloyd fod neges iechyd cyhoeddus FAST yn cael ei defnyddio'n effeithiol a bod ymwybyddiaeth y cyhoedd o atal strôc wedi cynyddu.

Dyweddodd Matt O'Grady fod y Gymdeithas Strôc yn croesawu'r mesur 'episod cyfan' ac yn fodlon gyda'r dosbarthiad ambr presennol. Roedd hefyd yn croesawu'r ymgysylltiad rhagweithiol â'r rhai sy'n cynnal yr Adolygiad. Fodd bynnag, anghytunodd â'r honiad nad oedd unrhyw dystiolaeth ar gyfer targedau. Mae yna dystiolaeth sy'n dangos bod targedau'n effeithiol pan gânt eu defnyddio'n briodol. Nododd fod targedau'n bodoli ar gyfer galwadau categori coch am y rhesymau hynny. Fodd bynnag, heb dargedau, mae'r Gymdeithas Strôc yn credu bod llai o sbardun ar gyfer gwelliant ac mae perygl mai'r unig newid sy'n deillio o'r adolygiad yw sut y mesurir amseroedd aros.

Holodd Dr Jill Newman am yr ymateb i alwadau ambr 1 ac ambr 2, mewn perthynas â chleifion thrombolysis. Byddai'r ffenestr ar gyfer thrombectomi, er enghraifft, yn ehangach na'r ffenestr ar gyfer thrombolysis. Atebodd Dr Brendan Lloyd y byddai'r gwaith hwnnw o fewn llwybrau cenedlaethol yn cael ei arwain gan yr arbenigwyr. Cytunwyd y dylid dadansoddi targedau

deallus, ond beth yw'r targedau deallus hynny sy'n dangos bod cleifion yn cael canlyniadau gwell? Mae'n dilysu swydd y dyranwyr galwadau brys, a gobeithio y bydd digon o adnoddau ar gael i sicrhau effeithiolrwydd.

Tynnodd Matt O'Grady sylw at y ffaith bod yna lawer o dystiolaeth eisoes sy'n dangos y niwed a achosir i gleifion strôc os caiff y driniaeth ei oedi ac mae hyn yn dystiolaeth bellach o'r angen am darged. Dywedodd hefyd na fyddai targed yn newid capasiti, dim ond y ffordd y blaenoriaethir adnoddau.

Dywedodd David Fitzgerald fod ei deulu wedi galw am wasanaethau ambiwlans ar sawl achlysur ac roedd wedi sylwi ar linellau o ambiwlansys yn aros i ryddhau eu cleifion y tu allan i'w ysbyty lleol sawl tro. Byddai dileu oedi yn helpu i wella profiad y claf.

Dywedodd Irina Ercovia, o safbwynt y claf, y pwynt mesur hanfodol yw pan fydd y driniaeth yn dechrau. Mae pobl yn aml yn galw'r gwasanaethau brys ar gam amhriodol. Nid yw Galw lechyd Cymru yn rhoi unrhyw gyngor y dyddiau hyn.

Rhoddodd Dr Brendan Lloyd sylw i un o bwyntiau Matt O'Grady, sef nad yw targedau sy'n seiliedig ar amser yn lleihau capasiti, felly awgrymodd os yw targedau'n cael eu dadansoddi, y dylid adolygu'r rhai sydd ar sail glinigol. Dywedodd Dr Fiona Jenkins y byddai angen cynnwys cysylltiadau technolegol rhwng systemau hefyd mewn unrhyw ddadansoddiad.

**Cam Gweithredu: Y Cadeirydd i ysgrifennu llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet i dynnu sylw at y pwyntiau trafod a wnaed a sicrhau bod Ysgrifennydd y Cabinet yn rhoi ystyriaeth briodol iddynt.**

#### 4. Unrhyw fater arall

Ni thrafodwyd unrhyw fater arall.

#### 5. Y cyfarfod nesaf

Cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc ddydd Mawrth, 12 Mawrth am 12:30 a fydd hefyd yn Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Y pwnc fydd Adolygiad Gwaith Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc. Gwahoddir Addysg a Gwella lechyd Cymru a bydd Dr Phil Jones yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp am y Cynllun Cyflawni Strôc.